



Mewnfudwyr rhyngwladol yng Nghymru

Pwyntiau allweddol

- Diffinnir **mewnfudwr rhyngwladol** fel rhywun sydd wedi newid ei wlad/ei gwlad breswyl arferol am gyfnod o flwyddyn o leiaf neu sy'n bwriadu gwneud hynny.
- Mae ar Lywodraeth Cymru ddyletswydd tuag at fewnfudwyr rhyngwladol sy'n byw yng Nghymru o dan ei swyddogaethau **tai, iechyd, addysg, a gwasanaeth cymdeithasol** a thrwy ei **agenda cydlynad cymunedol**
- Mae awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n ymgymryd â swyddogaeth gyhoeddus angen **data lefel leol sy'n ddiweddar ac o ansawdd uchel** ar faint o fewnfudwyr sy'n byw yn yr ardal, eu cenedligrwydd a'u nodweddion er mwyn bodloni eu dyletswyddau o dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**
- Er y bu mewnfudo rhyngwladol i Gymru ers canrifoedd, **bu mewnlifiad net o fewnfudwyr rhyngwladol** i Gymru ers 1994 yn unig
- Ar gyfartaledd, **bu mewnlifiad o fewnfudwyr rhyngwladol o tua 2,400 y flwyddyn** ers 1994 ond cododd y ffigur hon yn sylweddol o fis Mai 2004 pan ymunodd wyth wlad yng nghanol a dwyrain Ewrop (A8) yr UE a chafodd eu dinasyddion yr hawl i weithio yn y DU
- Ymunodd **tua 22,300 o fewnfudwyr A8** â marchnad lafur Cymru rhwng Mai 2004 a Mawrth 2008. Mae dros hanner yr holl weithwyr ymfudol o ganol a dwyrain Ewrop yng Nghymru yn byw yn **Sir Gaerfyrddin (Llanelli), Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam**
- Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd **167,871 o bobl yn byw yng Nghymru a gafodd eu geni y tu allan i'r DU**; sef 5.5% o'r boblogaeth
- Roedd y garfan fwyaf o bobl a gafodd eu geni y tu allan i'r DU sy'n byw yng Nghymru'n dod o **wlad Pwyl**, ond yn ogystal ceir niferoedd sylweddol a gafodd eu geni yn **India, Yr Almaen, Iwerddon ac Ynysoedd y Philipines**
- Mae'r dirwasgiad economaidd ers 2008 wedi'i gysylltu â newidiadau sylweddol o ran patrymau mewnfudo rhyngwladol i Gymru, a **gadawodd mwy o ymfudwyr rhyngwladol Gymru na'r rhai a oedd yn cyrraedd**
- Mae ymchwil a dadansoddiadau economaidd wedi dangos, yn gyffredinol, y gwnaeth mewnfudwyr A8 sy'n dod i'r DU ar ôl 2004 **gyfraniad ariannol net i'r DU** heb **effaith negyddol ar system lles y DU**. Yn gyffredinol, **ni fu unrhyw effeithiau negyddol ar farchnad lafur Cymru**

Lluniwyd gan yr Athro Heaven Crawley,
Y Ganolfan Ymchwil i Bolisiâu Mewnfudo (CMPR),
Prifysgol Abertawe ar ran
Partneriaeth Mewnfudo Cymru (WMP)

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2013

www.wmp.org.uk

Ffôn 029 2090 9550
Ffacs 029 2090 9510
E-bost Anne.Hubbard@wmp.org.uk

- Ceir trafodaeth wleidyddol a pholisi sylweddol am nifer y mewnfudwyr a ddisgwylir o'r gwledydd A2 – Rwmania a Bwlgaria – o 31 Rhagfyr 2013. **Mae graddfa ac effaith ymfudo o Fwlgaria a Rwmania'n anodd eu rhagweld yn gywir.**
- **Mae myfyrwyr rhyngwladol** wedi mynd yn fwyfwy pwysig i economi Cymru. Mae 8% o fyfyrwyr israddedig a 39% o fyfyrwyr ôl-raddedig ym Mhrifysgolion Cymru yn dod o'r tu allan i'r UE. **Mae myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru yn ychwanegu £237 miliwn i Gynnyrch Domestig Gros y wlad a mwy na 9,000 o swyddi.**

Y cyd-destun polisi

Er nad yw'r pwerau sy'n perthyn i loches a mewnfudo wedi'u datganoli, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dros geiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru o dan ei swyddogaethau tai, iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol a thrwy ei hagenda ar gyfer cydlynid cymunedol. O ganlyniad, **mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran galluogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid i ddod yn rhan o gymdeithas Cymru.**

Datblygir polisiâu tuag at geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru yng nghyd-destun agenda strategol Llywodraeth Cymru, yn benodol y Rhaglen Lywodraethu (2011) ac o fewn fframwaith deddfwriaeth y DU, a deddfwriaeth Ewropeaidd a rhyngwladol.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn rhestru'r camau gweithredu penodol y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd er mwyn 'creu cymdeithas deg sy'n rhydd rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid gyda chymunedau cydlynol a chynhwysol' (Llywodraeth Cymru 2011). Nod y Llywodraeth yw gwneud hyn drwy leihau anghydraddoldeb mewn addysg a sgiliau, iechyd, tai a deilliannau cyflogaeth ar gyfer pobl sydd â nodweddion a ddiogelir (yn cynnwys hil), gan gynyddu cyfraddau bodlonrwydd gyda gwasanaethau cyhoeddus a lleihau achosion o droseddau casineb.

Daeth **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** (Deddf Cydraddoldeb 2010) y cyfeirir ati hefyd fel 'y ddyletswydd gyffredinol' i rym yn Ebrill 2011 a'i nod yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n ymgymryd â swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach yn ei gweithgareddau o ddydd i ddydd drwy roi ystyriaeth deilwng i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

Er mwyn i gyrrff cyhoeddus gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (PSED) yn well, Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf i gyflwyno dyletswyddau cydraddoldeb penodol fel y'u rhestrir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Cafodd y rheoliadau eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a daethant i rym ar 6 Ebrill 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yn fyw pellgyrhaeddol yng Nghymru nag yn Lloegr ac yn rhoi dyletswyddau ar y sector cyhoeddus sy'n ymwneud ag ymgysylltu, asesiadau effaith ar gydraddoldeb, gwahaniaethau o ran cyflog, caffael, trefniadau adrodd, adolygu a chydraddoldeb a gwybodaeth am gyflogaeth.

Cyhoeddodd awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru eu hamcanion cydraddoldeb a'u Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol fis Ebrill 2012 a restrodd yn glir y camau gweithredu y mae'r sector cyhoeddus yn eu cymryd er mwyn bodloni'r ddyletswydd cydraddoldeb.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu pecyn croeso ar gyfer mewnfudwyr, **Understanding Wales** (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006) i sicrhau bod pobl sy'n dod i Gymru i fyw ac i weithio yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau ac, yn ogystal, rhoddir gwybodaeth iddynt am ble y gallant gael cymorth a chynngor os byddant yn wynebu problemau, gan eu helpu i ymgartrefu yn eu cymunedau newydd (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010).

Pwy sy'n fewnfudwr rhyngwladol?

Diffinnir **mewnfudwr rhyngwladol** fel rhywun sydd wedi newid ei wlad/ei gwlad breswyl arferol am gyfnod o flwyddyn o leiaf neu sy'n bwriadu gwneud hynny (Llywodraeth Cymru 2013). Mae mewnfudwyr rhyngwladol yn dod i'r DU drwy amrywiaeth o lwybrau gwahanol, gan gynnwys at gyflogaeth drwy'r system sy'n seiliedig ar bwyntiau, i astudio ac i ymuno ag aelodau'r teulu. Ni chaiff twristiaid ac ymwelwyr sy'n dod i Gymru am lai na blwyddyn eu cofnodi fel mewnfudwyr rhyngwladol.

Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd **167,871 o bobl yn byw yng Nghymru a gafodd eu geni y tu allan i'r DU**. Mae hyn yn cynrychioli 5.5% o'r boblogaeth gyfan.

Er bod mewnfudwyr rhyngwladol yn dod o ystod eang o wledydd, mae'r grwpiau mwyaf i gyrraedd y DU a Chymru dros y blynyddoedd diweddar wedi dod o wledydd Dwyrain Ewrop - yn enwedig Gwlad Pwyl a Slofacia. Yn aml, cyfeirir at y grŵp hwn o fewnfudwyr fel **mewnfudwyr A8**, oherwydd eu bod yn aelodau o'r wyth wlad yng nghanol a dwyrain Ewrop (A8) - sef **Gwlad Pwyl, y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Slofacia a Slofenia** - a ymunodd â'r Undeb Ewropeaidd yn 2004 ac a gafodd eu dinasyddion yr hawl i weithio yn y DU.

Mae mewnfudwr rhyngwladol yn rhywun sydd wedi newid ei wlad/ei gwlad breswyl arferol am gyfnod o flwyddyn o leiaf neu sy'n bwriadu gwneud hynny.

Mae mewnfudo A8 yn cyfeirio at ddinasyddion gwlad Pwyl, y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Slofacia a Slofenia sy'n dod i Gymru i fyw ac i weithio.

Mae mewnfudo A2 yn cyfeirio at ddinasyddion Bwlgaria a Rwmania a fydd yn cael yr hawl i weithio yn y DU ar 31 Rhagfyr 2013.

Yn ogystal, ymunodd **Bwlgaria a Rwmania** â'r UE yn Ionawr 2007 ond ar hyn o bryd mae ar ddinasyddion y gwledydd hyn gyfyngiadau ac ni allant weithio i gyflogwr heb drwydded waith (er y gallant fod yn hunangyflogedig). O 31 Rhagfyr 2013, byddant hefyd yn

cael yr hawl i weithio yn y DU.

Yn aml, cyfeirir at fewnfudwyr o'r gwledydd hyn fel **mewnfudwyr A2**.

Mae'n bwysig sylwi bod y termau hyn yn cyfeirio at **boblogaeth amrywiol, o amrywiaeth o wledydd a chefnidiroedd gwahanol, sy'n dod oherwydd ystod o resymau gwahanol a rhoddir hawliadau a hawliau gwahanol iddynt o dan gyfraith mewnfudo'r DU**.

Dylid sylwi nad yw'r papur briffio hwn yn cynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru oherwydd eu bod yn destun papur briffio ar wahân.

Data a niferoedd

Mae graddfa a phwysigrwydd cynyddol mewnfudo rhyngwladol wedi amlygu annigonolrwydd y data presennol. Er bod llawer o hanesynnau, mae tystiolaeth gadarn yn gymharol brin ac yn lle hynny mae angen dod â darnau o dystiolaeth at ei gilydd o nifer o wahanol ffynonellau. (Cyngres yr Undebau Llafur 2008)

Bu mewnlifiad net o fewnfudwyr rhyngwladol - mewn geiriau eraill, mwy o fewnfudwyr rhyngwladol yn cyrraedd nag sy'n gadael - ers 1994.

Ar gyfartaledd, net, bu mewnlifiad net o tua 2,400 y flwyddyn ond cynyddodd y nifer hwn wrth i fewnfudwyr A8 gyrraedd o fis Mai 2004.

Yn 2011 bu all-lif net o fewnfudwyr o Gymru am y tro cyntaf ers 1993.

Yn seiliedig ar ffynonellau data presennol, gallwn adnabod tri thueddiad bras o ran mewnfudo rhyngwladol i Gymru.

- Er y bu mewnfudo rhyngwladol i Gymru ers canrifoedd, bu all-lif net cyn 1994.** Bu mewnlifiad net yn unig o fewnfudwyr *rhyngwladol* – mewn geiriau eraill, mwy o fewnfudwyr yn cyrraedd na'r rhai sy'n gadael – er 1994.
- Er 1994 bu'r mewnlifiad net o fewnfudwyr rhyngwladol tua 2,400 y flwyddyn** ond cododd y ffigwr yn sylweddol o fis Mai 2004 pan ymunodd wyth o wledydd yng nghanol a dwyrain Ewrop (A8) – sef Gwlad Pwyl, y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Slofacia a Slofenia – â'r Undeb Ewropeaidd – a chafodd eu dinasyddion yr hawl i weithio yn y DU. **Mae'r garfan fwyaf o bobl a gafodd eu geni y tu allan i'r DU sy'n byw yng Nghymru yn dod o wlad Pwyl, ond yn ogystal ceir niferoedd sylweddol a gafodd eu geni yn India, Yr Almaen, Iwerddon ac Ynysoedd y Philipines** (ONS 2012).

3. Cafodd y dirwasgiad economaidd ers 2008 ei gysylltu â newidiadau sylweddol o ran patrymau mewnfudo rhyngwladol i Gymru. **O 2008, cynyddodd nifer y mewnfudwyr rhyngwladol yn gadael Cymru.** Yn 2011, bu *all-lif* net o fewnfudwyr rhyngwladol am y tro cyntaf er 1993, ac roedd y niferoedd yn gadael Cymru yn fyw na'r rhai yn symud i Gymru o tua 1,500 o bobl (Llywodraeth 2013).

Cydnabyddir yn gyffredinol bod ystadegau ar fewnfudo'n annigonol ac mae angen eu gwella, yn enwedig ar lefel leol. Mae hyn oherwydd bod graddfa a chyfansoddiad mewnfudo rhyngwladol yn amrywio'n sylweddol ar gyfer ardaloedd gwahanol o Gymru ac oherwydd bod effaith mewnfudo'n amrywio, yn dibynnu ar ddemograffeg, marchnad lafur ac economi'r rhanbarth; teimlwyd y pwysau eisoes ar wasanaethau a phrofiad blaenorol o ran ymdrin â chymunedau amrywiol (Sefydliad Cydlyniad Cymunedol 2007).

Ffig. 1: Mewnfudo rhyngwladol yn ôl awdurdodau lleol rhwng canol 2005-6 tan ganol 2009-10 (Llywodraeth Cymru 2010)

	I Mewn	Allan	Net	Cyfaint fesul 1,000 o bobl
Ynys Môn	630	730	-100	4
Gwynedd	3,360	2,830	530	10
Conwy	1,820	2,330	-510	7
Sir Ddinbych	1,270	1,360	-100	5
Sir y Fflint	990	1,400	-410	3
Wrecsam	2,650	1,760	880	7
Powys	1,460	1,680	-220	5
Ceredigion	4,310	2,700	1,620	18
Sir Benfro	2,150	2,240	-90	8
Sir Gaerfyrddin	1,670	1,560	110	4
Abertawe Castell Nedd Port Talbot	9,280	5,730	3,540	13
Bro Morgannwg	1,820	1,500	321	5
Caerdydd	30,410	15,990	14,430	28
Sir Fynwy	940	1,320	-380	5
Casnewydd	3,450	2,730	730	9
Pen-y-bont ar Ogwr Rhondda Cynon Taf	1,020	1,250	-230	3
Merthyr Tudful	540	400	140	3
Caerffili	500	880	-380	2
Blaenau Gwent	380	400	-10	2
Torfaen	300	530	-230	2

Mae ar awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n ymgymryd â swyddogaeth gyhoeddus angen **data ar lefel leol sy'n ddiweddar ac o ansawdd uchel** ar faint o fewnfudwyr sy'n byw yn yr ardal, eu cenedligrwydd a'u nodweddion er mwyn bodloni eu dyletswyddau o dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

Er y gellir dod o hyd i'r crynodiad mwyaf o fewnfudwyr rhyngwladol yng Nghaerdydd, Abertawe, Wrecsam, Casnewydd a Llanelli, mae pob ardal yng Nghymru wedi cael profiad o fewnfudwyr rhyngwladol yn cyrraedd er mwyn gweithio ac astudio. Mae'n bwysig bod cyrff cyhoeddus ledled Cymru'n ymwybodol o anghenion y rhai sy'n byw yn eu hardal ac yn ymateb yn unol â hynny.

Gall mewnudwyr ddod â buddion mawr i'r economi leol ac maent yn gwneud hynny, ond gallant, o bosibl, roi pwysau ychwanegol ar wasanaethau lleol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd ardaloedd yr oedd ganddynt boblogaeth a oedd yn dirywio ac yn heneiddio, na fuont yn ardaloedd traddodiadol o fewnfudo, yn ystyried mewnudo'n ateb ond mae arnynt angen cael gwybodaeth ar y boblogaeth newydd sy'n byw yn eu hardal er mwyn bodloni eu hanghenion ac ymdrin ag unrhyw densiynau neu faterion sy'n codi.

Cafodd **Porth Mewnudo Cymru** ar <http://wmp.infobasecymru.net/IAS/> ei ddatblygu gan yr WMP ac mae'n dod â data ar fewnfudo ac ethnigrwydd sydd ar gael yn gyhoeddus ynghyd am y tro cyntaf mewn un lle drwy offeryn data ar-lein sy'n syml ac yn sythweledol, ac y bydd yn helpu gwasanaethau yng Nghymru i ddeall eu cymunedau.

Mewnudwyr o'r Gwledydd A8

Er 2004, mae dros filiwn o weithwyr wedi dod i'r DU o'r wyth gwlad yng nghanol a dwyrain Ewrop (A8) a ymunodd â'r UE ar yr adeg honno. **Bellach, gwladolion Gwlad Pwyl yw'r grŵp unigol mwyaf o wladolion tramor sy'n byw yn y DU** – wedi codi o'r 13eg mwyaf ar ddechrau 2004.

Mae ymchwil yn awgrymu bod tua 22,300 o fewnfudwyr A8 wedi ymuno â marchnad lafur Cymru rhwng Mai 2004 a Mai 2008 ond ni wyddys faint o weithwyr ymfudol a adawodd ers y cyfnod hwnnw neu a gyrhaeddodd heb gofrestru. (Shiple 2008)

Mae dros hanner yr holl weithwyr ymfudol o ganol a dwyrain Ewrop sy'n byw yng Nghymru yn Sir Gaerfyrddin (Llanelli), Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam

Mae nifer y mewnudwyr A8 sy'n byw yng Nghymru yn aneglur ac mae'r darlun yn newid yn barhaus. Mae'n ymddangos yn debygol y cafodd niferoedd y gweithwyr ymfudol mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru eu hamcangyfrif yn rhy isel yn sylweddol. Mae llawer o'r

ymchwil a gyhoeddwyd yn seiliedig ar ddata o Gynllun Cofrestru Gweithwyr (WRS), nad yw'n bodoli bellach. Yn ôl y data hwn, **ymunodd tua 22,300 o fewnfudwyr A8 â marchnad lafur Cymru rhwng Mai 2004 a March 2008** (Shiple 2008). Fodd bynnag, ni wyddys faint o'r mewnudwyr hyn sydd wedi gadael Cymru ers hynny neu faint a ddaeth heb gofrestru (naill ai oherwydd nad oedd angen iddynt wneud, e.e. oherwydd eu bod yn hunangyflogedig, nad oeddent yn ymwybodol o'r angen am gofrestru, gwnaethant ddewis peidio â gwneud neu roeddent yn methu â gwneud oherwydd iaith a rhwystrau eraill).

Mae'n bwysig cydnabod y cafodd llawer o'r mewnudo hyn ei ganolbwyntio'n ddaearyddol mewn ardaloedd penodol yng Nghymru. **Mae dros hanner y gweithwyr o ganol a dwyrain Ewrop sy'n byw yng Nghymru yn Sir Gaerfyrddin (Llanelli), Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam.**

Mae dwy ran o dair o weithwyr ymfudol A8 yng Nghymru'n dod o Wlad Pwyl, ac un rhan o chwech yn dod o Slofacia. Mae nifer y gweithwyr o wledydd A8 sy'n cofrestru ers 2006 wedi gostwng yn helaeth ond mae'n sylweddol mewn rhai ardaloedd o hyd (yn enwedig Wrecsam a Llanelli).

Mae gan **Sir Gaerfyrddin** y nifer fwyaf o weithwyr ymfudol A8. Mae'r grŵp mwyaf yn Bwyliaid. Mae nifer o faterion wedi codi o ran gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig ynghylch ysgolion Catholig sydd wedi mynegi pryderon am y cyllid a'r cymorth ychwanegol sydd eu hangen i addysgu plant mewnudwyr a nifer yr athrawon sydd â sgiliau iaith arbenigol. (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009).

Trafodir effaith y gweithwyr ymfudol ar y farchnad lafur yn fanwl yn ein briiffiad ar **Mewnudo a Chyflogaeth**. Mae dadansoddiadau ymchwil ac economaidd yn dangos, yn gyffredinol, **bod mewnudwyr A8 a ddaeth i'r DU ar ôl 2004 wedi gwneud cyfraniad ariannol net i'r DU, heb effaith negyddol ar system lles y DU**. Yn bennaf, bu mewnudwyr A8 yn ifanc gyda lefelau uchel o addysg a sgiliau, o'u cymharu â'r boblogaeth frodorol. O ganlyniad, mae ganddynt gyfradd cyfranogi uwch yn y farchnad lafur, yn talu'n gymesur fwy o ran trethi anuniongyrchol ac yn gwneud llawer llai o ddefnydd ar fudd-daliadau a gwasanaethau cyhoeddus (Dustmann et al. 2010).

Mae ymchwil ar effaith mewnudo A8 yn benodol yng Nghymru yn cadarnhau **mai nifer fach yn unig (os unrhyw beth) o arwyddion o effeithiau negyddol sydd gan fewnfudwyr A8 ar farchnad lafur Cymru** (Lemos 2010). Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ymchwilwyr yn cydnabod y gallai *rhai* gweithwyr mewn *rhai* sectorau o'r economi fod o dan anfantais, o bosibl (Dustmann et al. 2010).

Mewnudwyr o Fwlgaria a Rwmania (Gwledydd 'A2')

Ar 1 Ionawr 2007, ymunodd Bwlgaria a Rwmania (a elwir yn wledydd A2) â'r Undeb Ewropeaidd ac mae gwladolion y gwledydd hyn wedi elwa ar hawliau symud yn rhydd. Yn wahanol i wladolion o'r gwledydd A8, fodd bynnag, bu cyfyngiadau trawsnewidiol ar waith er 2007, sy'n cyfyngu ar fynediad i farchnad lafur y DU. Cafodd gwladolion Bwlgaria a Rwmania eu cyfyngu i waith crefftus neu weithio o dan ddwy raglen sy'n seiliedig at gwotâu ar gyfer y sectorau amaeth a phrosesu bwyd (Arsyllfa Mewnudo 2023). Maent hefyd wedi gallu byw yn y DU fel gweithwyr hunangyflogedig, myfyrwyr neu os ydynt yn

hunangynhaliol (AAPG 2013). Yn 2011, dangosodd data fod 141,000 o Fwlgariaid a Rwmaniaid yn byw yn y DU (Arsyllfa Mewnfudo, 2012).

Ar 31 Rhagfyr 2013, caiff y cyfyngiadau trawsnewidiol eu diddymu, a bydd gan wladolion Bwlgaria a Rwmania yr un hawliau i weithio yn y DU ag sydd gan wladolion eraill yr Undeb Ewropeaidd. Yn ogystal, bydd y Llywodraeth yn cau dau gynllun gwaith o fewn y sectorau amaeth a phrosesu bwyd.

Mae gwleidyddion a sylwebyddion yn y cyfryngau wedi mynegi pryderon ynglŷn ag effeithiau posibl diddymu'r cyfyngiadau trawsnewidiol. Mae pryderon ynghylch graddfa bosibl mewnfudo o fis Ionawr 2014 a nodweddion mewnfudwyr o'r gwledydd hyn sy'n dod i'r DU.

Mae'n debygol y bydd rhywfaint o gynnydd o ran mewnfudo o Fwlgaria a Rwmania i'r DU ond **mae'n anodd rhagweld yn gywir raddfa mewnfudo o Fwlgaria a Rwmania** (IPPR 2006; AAPG 2013). Mae'n rhaid i unrhyw ragfynegiadau ystyried nifer o ffactorau gwahanol, gan gynnwys y sefyllfa economaidd ym Mwlgaria a Rwmania a'r DU a'r ffaith bod Bwlgariaid a Rwmaniaid sydd eisoes yn byw yn y DU yn fach o'u cymharu â rhai cymunedau A8 cyn eu derbyn.

Efallai'n bwysicaf oll, **mae nifer fwy o wledydd y gall gwladolion Bwlgaria a Rwmania mewnfudo iddynt**. Ar hyn o bryd, mae deg o aelod-wladwriaethau yr UE, gan gynnwys y DU, Ffrainc a'r Almaen, yn cadw cyfyngiadau trawsnewidiol ar gyfer gwladolion A2. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol iddynt oll diddymu'r cyfyngiadau hyn ar 31 Rhagfyr 2013. Mae hyn yn golygu nad y DU yw'r unig gyrchwlad ar gyfer Bwlgariaid a Rwmaniaid ar ôl y dyddiad hwn.

Mae'n debygol y bydd rhywfaint o **fewnfudo'n dilyn patrymau sefydledig**, sy'n perthyn i iaith yn ogystal â rhwydweithiau diwylliannol a theuluol. Hyd yn hyn, mae Sbaen a'r Eidal, er enghraifft, wedi derbyn y gyfran uchaf o fewnfudwyr o Rwmania yn yr UE ac mae'n debygol y bydd y ddwy wlad yn gweld ymfudo mewnol sylweddol yn 2014 (Arsyllfa Mewnfudo 2013). Yn ogystal, **mae gan Fwlgaria a Rwmania boblogaethau sy'n heneiddio ac yn crebachu a'r cyfraddau ffrwythlondeb isaf yn Ewrop**. Mae'r garfan o bobl ifanc sydd fwyaf tebygol o fewnfudo yn crebachu.

O ganlyniad i'r ffactorau hyn, mae'n bosibl y bydd mewnfudo i'r DU o Fwlgaria a Rwmania yn fwy hydrin nag

y mae rhai adroddiadau yn y cyfryngau wedi awgrymu (AAPG 2013; Duvell 2012). Mae hyn yn golygu **y bydd unrhyw niferoedd a ddarperir, ar eu gorau, yn ddyfaliadau gwybodus ac felly heb fod yn ddigon dibynadwy i ddatblygu ymatebion polisi**. Mae'r dyfaliadau sy'n dwysau ynghylch y nifer gyffredinol o Fwlgariaid a Rwmaniaid a fydd o bosibl yn dod i Brydain hefyd yn diystyru'r ffaith, er bod effeithiau'n debygol o fod yn benodol i ranbarthau a chymdogaethau, nid oes ffordd o wybod ble y bydd mewnfudwyr yn dewis byw.

Nid yw'n syndod bod dyhead am ragweld mewnlifiadau a mewnfudo net y Bwlgariaid a'r Rwmaniaid, oherwydd mae angen i lywodraethau cenedlaethol a lleol gynllunio am effeithiau ar wasanaethau allweddol megis tai, iechyd ac addysg, yn ogystal ag ar y farchnad lafur.

Mae Llywodraeth San Steffan wedi canolbwyntio ei sylw hyd yn hyn ar fynd i'r afael â phryderon y cyhoedd

ynghylch effeithiau posibl mewnfudo ar system lles y DU, ond ychydig o dystiolaeth yn unig sydd ar i ba raddau y bydd gwladolion Bwlgaria a Rwmania yn manteisio ar fudd-daliadau neu wasanaethau yn y DU ac mae cyfyngiad eisoes ar waith ar gyfer y grŵp hwn, yn yr un modd ar gyfer gwladolion o rannau eraill o ddwyrain a chanol Ewrop.

Mae'n bwysig sylwi **bod y drafodaeth am fewnfudo o Fwlgaria a Rwmania yn cael ei dylanwadu'n gryf iawn gan y ffaith y disgwylir i rai o'r rhai sy'n mewnfudo fod o gefndiroedd Roma** sydd wedi cael trafferth dod o hyd i swyddi yn eu mamwledydd oherwydd diffyg cyfleoedd addysgol a gwahaniaethu yn y farchnad lafur. Mae cyfran uwch o Roma (tua 2.5 miliwn) yn byw ym Mwlgaria a Romania nag yn y gwledydd A8. Fodd bynnag, erys yn aneglur faint o Roma sy'n bwriadu gadael ac yn llai clir fyth faint sy'n bwriadu dod i'r DU, gan gynnwys Cymru.

Cydwladoli addysg uwch ac addysg bellach

Mae data o Borth Ymfudo Cymru yn dangos, yn 2011, bod **8% o fyfyrwyr israddedig ym Mhrifysgolion Cymru yn dod o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r ffigwr hwn yn codi i 39% ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig ym Mhrifysgolion Cymru**.

Mae 8% o fyfyrwyr israddedig ym Mhrifysgolion Cymru yn dod o'r tu allan i'r UE.

Mae 39% o fyfyrwyr ôl-raddedig ym Mhrifysgolion Cymru yn dod o'r tu allan i'r UE.

Cafodd ei amcangyfrif fod myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru'n ychwanegu £237 miliwn i gynnyrch domestig gros y wlad a mwy na 9,000 o swyddi (Oxford Economics 2011).

Mae ymchwil gan Oxford Economics (2011) ar ran Llywodraeth Cymru a chyrrff cyllido addysg uwch yn meintioli cyfraniad economaidd myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr yr UE ym mhrifysgolion Cymru am y tro cyntaf.

Yn 2009-10, roedd 19,050 o fyfyrwyr tramor o fwy na 70 o wledydd yn astudio yng Nghymru, ac yn y cyfnod hwnnw, gwnaethant dalu £110 miliwn mewn ffioedd dysgu, gwario £130 miliwn ar gostau byw a sbarduno cyfraniad o £23 miliwn gan deulu a ffrindiau. Mae Oxford Economics (2011) yn amcangyfrif bod **myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru yn ychwanegu cyfanswm o £237 miliwn i gynnyrch domestig gros y genedl a mwy na 9,000 o swyddi yng Nghymru**.

Mae'r cyfanswm gyfwerth â 0.5% o economi Cymru, sy'n gyfran fwy nag amaethyddiaeth ac yn debyg i sector gwestai a bwytai Caerdydd. Mae gweddill y DU hefyd yn elwa ar fyfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr yr UE, oherwydd bod cadwyni cyflenwi yn y DU yn cynhyrchu cyfraniad o £57 miliwn arall i gynnyrch domestig gros y DU ac yn cynnal 1,910 o swyddi ychwanegol.

Cyfeiriadau a rhagor o wybodaeth

All-Parliamentary Group on Migration (AAPG) (2013) *Learning from the Past, Planning for the Future: Immigration from Romania and Bulgaria from 2014*, <http://www.appgmigration.org.uk/sites/default/files/A2%20Migration.pdf>

Dustman, C., Frattini, T. a Halls, C. (2010) 'Assessing the fiscal costs and benefits of A8 migration to the UK', *Fiscal Studies* 31(1), 1-41
www.ucl.ac.uk/~uctpb21/Cpapers/DustmannFrattiniHalls2010.pdf

Duvell, F, (2013) 'Romanian and Bulgarian migration to Britain: facts behind the fear', www.opendemocracy.net/ourkingdom/franck-d%3%BCvell/romanian-and-bulgarian-migration-to-britain-facts-behind-fear

Institute of Community Cohesion (iCoCo) (2007) *Estimating the Scale and Impacts of Migration at the Local Level*, London: Local Government Association (LGA)
<http://resources.cohesioninstitute.org.uk/Publications/Documents/Document/DownloadDocumentsFile.aspx?recordId=56&file=PDFversion>

Institute for Public Policy Research (IPPR) (2006) *EU Enlargement: Bulgaria and Romania – Migration Implications for the UK*, London: IPPR,
www.grupa484.org.rs/czm/migracioni_potencijal/EU_enlargement_factfile%20Bulgaria%20and%20Romania_Drew_2005.pdf

Lemos, S. (2010) 'Labour Market Effects of Eastern European Migration in Wales', *University of Leicester Working Paper* 10/03
www.le.ac.uk/ec/research/RePEc/lec/leecon/dp10-03.pdf

Arsyllfa Ymfudo (2013) *Commentary: Romania and Bulgaria: The Accession Guessing Game*, Oxford: Prifysgol Rhydychen
www.migrationobservatory.ox.ac.uk/sites/files/migobs/commentary%20-%20Romania%20and%20Bulgaria_0.pdf

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2012) *International Migrants in England and Wales*,
www.ons.gov.uk/ons/dcp171776_290335.pdf

Oxford Economics (2011) *The Impact of International and EU students in Wales*, Rhydychen
www.hefcw.ac.uk/documents/policy_areas/business_and_communities/The%20Impact%20of%20International%20and%20EU%20students%20in%20Wales.pdf

Llywodraeth Cymru (2013) *Ystadegau Mewnfudo: Cymru 2011* <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2013/130312-migration-statistics-2011-en.pdf>

Llywodraeth Cymru (2011) *Ystadegau Mewnfudo Cymru* <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2011/111118sb1042011r-en.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Understanding Wales*, <http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/comm/100229undwalesen.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) *Ystadegau ar Weithwyr Ymfudol yng Nghymru* <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2009/090827sa28en.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Welcome to Wales Pack for Migrant Workers*,
<http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/community-cohesion/publications/welcometowales/?lang=en>

Cyngres yr Undebau Llafur (2008) *One Workforce: Migrant workers in Wales – a Trade Union report*, Caerdydd: Cyngres yr Undebau Llafur, Cymru ,
www.tuc.org.uk/extras/migrantworkerswtuc.pdf

Ynglŷn â'r gyfres o bapurau briffio

Mae'r papur briffio hwn yn un o gyfres a luniwyd gan yr Athro Heaven Crawley, Cyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil ar Bolisi Mewnfudo (CMPR) ym Mhrifysgol Abertawe i wella gwybodaeth a dealltwriaeth am faterion mewnfudo yng Nghymru. Mae'r papurau'n rhestru'r dystiolaeth ar fewnfudo i Gymru mewn perthynas â materion a themâu allweddol sy'n gonsym i'r cyhoedd ac o ran polisi ac maent yn darparu gwybodaeth ddiweddar am gyfansoddiad a phrofiadau'r poblogaethau sy'n mewnfudo, sy'n geiswyr lloches ac sy'n ffoaduriaid ac yn byw yng Nghymru.

Gellir lawrlwytho'r papurau briffio o www.wmp.org.uk

Gellir lawrlwytho data ac adnoddau ychwanegol o Borth Mewnfudo Cymru

<http://wmp.infobasecymru.net/IAS>

Mae Partneriaeth Ymfudo Cymru yn croesawu atgynhyrchu'r papur briffio hwn at ddibenion cynrychioli, addysg, hyfforddiant ac ymgyrchu, ar yr amod na chodir tâl am ddefnyddio'r deunydd a chyhyd ag y cydnabyddir ffynhonnell y wybodaeth.